**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Cynllun Corfforaethol Drafft Gyrfa Cymru 2002-05**

**i. Pwrpas**

Rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor fynegi'i farn ar Gynllun Corfforaethol Drafft Gyrfa Cymru ar gyfer y cyfnod 2002-05.

**ii. Amseru**

Mae Cymdeithas Gyrfa Cymru (CWA) yn y broses o ymgynghori gydag ystod eang o bartneriaid allweddol yn lleol ac yn genedlaethol. Ceir manylion am y rhain yn Atodiad 1. Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dod i ben ar 31 Ionawr 2002.

**iii. Cefndir**

Roedd y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (ETAP) yn argymell y dylai Gyrfa Cymru gael ei sefydlu fel gwasanaeth a fyddai'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i bobl o bob oed. Gan ddatblygu ar y cwmnïau sydd eisoes yn darparu gwasanaethau gyrfaoedd, lluniwyd Gyrfa Cymru i gydlynu'r gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaethau gyrfaoedd a Chynghorau Hyfforddiant a Menter drwy gyfuno'r gwasanaeth statudol ar gyfer pobl ifanc, Menter Cyfarwyddyd Oedolion, gan gynnwys y linell gymorth Learndirect, ymdrechion i ffurfio cysylltiadau rhwng Addysg a Busnes megis profiad gwaith, ymwybyddiaeth o fentrau a mentora cyflogwyr, a Phorth Ieuenctid.

Cafodd Gyrfa Cymru ei lansio ar 1 Ebrill 2001. Y prif amcanion cynllunio strategol ar gyfer y flwyddyn gyntaf yw: sicrhau bod busnes yn rhedeg fel arfer ac yn effeithiol ar gyfer yr ystod o wasanaethau sydd wedi'u trosglwyddo; helpu pobl ifanc i symud yn llwyddiannus o fyd addysg i fyd cyflogaeth; meithrin agwedd bositif at ddysgu ymhlith y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ddadymafael; ac annog pobl o bob oedran i enhangu'u sgiliau a'u gwybodaeth. Mae saith cwmni annibynnol Gyrfa Cymru hefyd wedi cael y dasg o ddatblygu safonau ansawdd cyffredin ledled Cymru.

Mae'r ddogfen Y Wlad sy'n Dysgu wedi ychwanegu at y disgwyliadau a bennwyd ar gyfer Gyrfa Cymru yn ETAP: profi bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well; cyhoeddi gwybodaeth llawer mwy trwyadl ar ganlyniadau; datblygu dulliau rhyngweithiol wedi'u seilio ar TGCh; cyfathrebu a marchnata'n fwy effeithiol; ymestyn safonau cyffredin o dan y brand; datblygu staff mewn modd mwy cynhwysol ac ad-drefnu'n sefydliadol i ddarparu gwasanaeth effeithiol

yn lleol ac yn genedlaethol.

Bydd cynnydd o tua £4 miliwn yn yr arian fydd ar gael ar gyfer Gyrfa Cymru yn 2002-03 (cynnydd o tua 14%) a £2 miliwn yn ychwanegol yn 2003-04. Yn eu cynlluniau busnes ar gyfer 2002-03 bydd disgwyl i gwmnïau Gyrfa Cymru gynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer oedolion a phobl ifanc yn sylweddol. Mae cwmnïau hefyd yn cyd-weithio i archwilio'r posibiliadau o lunio gwefan ryngweithiol ar gyfer Cymru gyfan – Gyrfa Cymru Ar-lein – a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio ystod o wasanaethau rhyngweithiol sydd wedi'u teilwra ar gyfer ystod eang o grwpiau cleient. Bydd Gyrfa Cymru hefyd yn gweithio'n glòs â Phartneriaethau Pobl Ifanc i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion penodol pobl ifanc ym mhob un o ardaloedd y partneriaethau.

Mae Cynllun Corfforaethol Drafft Gyrfa Cymru yn cynnwys gweledigaeth Cymdeithas Gyrfa Cymru o nodau a gwerthoedd strategol cytûn cwmnïau lleol a ddatblygwyd i gwrdd â nodau a disgwyliadau a bennwyd yn ETAP ac yn Y Wlad Sy'n Dysgu. Bydd y 7 cwmni Gyrfa Cymru'n parhau i weithio fel cwmnïau lleol annibynnol heb unrhyw strwythur hierarchaidd. Mae pob cwmni'n contractio'n unigol gyda'r Cynulliad Cenedlaethol bob blwyddyn ar sail cynllun busnes manwl.

**iv Cydymffurfio**

Yn Adrannau 2 a 8-10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 ceir y sylfaen statudol ar gyfer gwasanaethau Gyrfa Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**v. Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r papur hwn.

**vi. Enw Cyswllt**

Mike Moss

Yr Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd (TSCP1)

**Atodiad 1**

**CYNLLUN CORFFORAETHOL – Y RHAI YR YMGYNGHORIR Â HWY**

**Sefydliadau Cenedlaethol**

ACCAC AWEMA

Asiantaeth Medrau Sylfaenol Busnes yn y Gymuned

Canllaw Online CBI Cymru

Chwarae Teg Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Y Coleg Digidol Anabledd Cymru

ELWa Y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Y Gwasanaeth Cyflogi ESTYN

FEDA Ffederasiwn Busnesau Bach

FFORWM CCAUC

Institute of Careers Guidance Llais Ifanc

NACGT NIACE (Cymru)

NCH Cymru NTO Cymru

Ymddiriedolaeth y Tywysog RNIB

RNID Cyngres yr Undebau Llafur (Cymru)

PiD Cymru Cyngor Ieuenctid Cymru

Awdurdod Datblygu Cymru CLlLC

WAYC Cyngor Gweithredu Gorfodol Cymru

Menter Ifanc Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd

Aelodau’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cadeiryddion holl Bwyllgorau’r Cynulliad

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Yn Lleol**

Pob Ysgol Uwchradd

Colegau Addysg Bellach

Mudiadau Gwirfoddol

Darparwyr Hyfforddiant

Partneriaethau Addysg Busnes

Awdurdodau Lleol